

Adroddiad i'r	Cyngor
Dyddiad y cyfarfod	20 Chwefror 2025
Aelod/Swyddog Arweiniol	Y Cyngorydd Julie Matthews / Karen Bellis
Pennaeth Gwasanaeth	Catrin Roberts
Awdur yr Adroddiad	Karen Bellis
Teitl	Diweddariad i Reolau'r Weithdrefn Gontractau

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

- 1.1. Diweddariad i Reolau'r Weithdrefn Gontractau i gyd-fynd â'r Ddeddf Gaffael 2023

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

- 2.1. Darparu gwybodaeth ynglŷn â'r diweddariadau i Reolau'r Weithdrefn Gontractau i gyd-fynd â'r Ddeddf Gaffael 2023.

3. Beth yw'r Argymhellion?

Cydnabod y newidiadau i Reolau'r Weithdrefn Gontractau i alluogi parhad y broses gaffael sy'n cydymffurfio ar draws y Cyngor.

4. Manylion yr adroddiad

- 4.1. Mae Rheolau'r Weithdrefn Gontractau wedi'u diweddaru i gyd-fynd â'r Ddeddf Gaffael 2023 pan ddaw i rym ar 24 Chwefror 2025. Nid yw'r diweddariad yn

effeithio ar, nac yn newid y Strategaeth Gaffael bresennol. Diweddariad tymor byr yw hwn gan y bydd Rheolau'r Weithdrefn Gontractau yn cael eu hadolygu ymhellach yn ddiweddarach eleni yn barod ar gyfer gweithredu Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru), a ragwelir ddiwedd 2025 neu ar ddechrau 2026, yr union ddyddiad i'w gadarnhau gan Lywodraeth Cymru.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

5.1. Nid yw'r diweddariad i Reolau'r Weithdrefn Gontractau yn cael unrhyw effaith ar y Cynllun Corfforaethol.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Ni fydd gan y diweddariad i Reolau'r Weithdrefn Gontractau unrhyw oblygiadau o ran cost, bydd y diweddariad yn rhoi canllawiau sy'n cydymffurfio i swyddogion a gwasanaethau comisiynu.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

7.1. Nid oes angen Asesiad o Effaith ar Les ar gyfer y diweddaraid i Reolau'r Weithdrefn Gontractau.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Mae gwybodaeth, hyfforddiant ac ymgysylltu ar draws y Cyngor wedi'i wneud. Mae'r diweddariadau angenrheidiol i Reolau'r Weithdrefn Gontractau wedi'u creu yn dilyn cyngor cyfreithiol arbenigol a mewnbwn uniongyrchol gan y Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol, Pennaeth Gwasanaeth (Gwasanaethau Cymorth Corfforaethol – Pobl) a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Amherthnasol

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Dim risgiau wedi'u nodi

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023, Deddf Llywodraeth Leol 2000